

OWEN, DANIEL (1836 - 1895), nofelydd

Enw: Daniel Owen
Dyddiad geni: 1836
Dyddiad marw: 1895
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: nofelydd
Maes gweithgaredd: Llenyddiaeth ac Ysgrifennu
Awdur: Katherine Williams

Ganwyd 20 Hydref 1836 yn 53 Maes y Dref, yr Wyddgrug, Sir y Fflint, yr ieuengaf o chwech o blant. Glöwr oedd y tad, a cholodd ef a dau fab eu bywydau pan dorrodd d r i waith glo Argoed. Hanfyddai ei fam o deulu '[Twm o'r Nant](#).' Ychydig o addysg a gafodd Daniel Owen pan oedd yn fachgen, a phan oedd yn 12 oed prentisiwyd ef yn deiliwr am bum mlynedd. Bu'n gweithio am 10 mlynedd wedyn gyda'i hen feistr. Dechreuodd bregethu yn 1864, yr un pryd â'r [athro Ellis Edwards](#). Mae'n debyg fod ei addysg fore yn gyffelyb i'r disgrifiad o addysg a geir gan 'Robyn y Sowldiwr' yn *Rhys Lewis*. Yr oedd ei waith yn siop y teiliwr yn gyfle iddo ddyfod i adnabod pobl ac i ddadlau ar wahanol bynciau, ac y mae ôl y profiad hwn ar ei nofelau. Hefyd, yr oedd cyfarfodydd cystadleuol yn y dref. Yr adeg hon, cyfieithodd *Twelve Nights in a Bar Room*, nofel Americanaidd, a chyhoeddwyd y cyfieithiad mewn cylchgrawn pythefnosol o'r enw *Charles o'r Bala*. Ysgrifennodd hefyd ddisgrifiadau o gymeriadau o'r dref i gylchgrawn o'r De, a cheir rhai ohonynt yn *Straeon y Pentan*. Ysgrifennai i bapurau Cymraeg a Saesneg yr un amser. Dysgodd elfennau cerddoriaeth ac yr oedd yn ganwr da fel ei dad. Yr oedd yn 23 mlwydd oed cyn mynd yn aelod eglwysig, er ei fod yn gapelwr cyson. Aeth i Goleg y Bala yn 1865. Ni ddisgleiriodd fel myfyriwr, ond darllenai lawer o lenyddiaeth Saesneg. Gadawodd y coleg braidd yn sydyn yn 1867 i fyned adref i edrych ar ôl ei fam a'i chwaer a oedd yn wael. Aeth yn ôl at ei hen feistr i weithio fel teiliwr. Yna dechreuodd gadw ei fusnes ei hun, ond daliodd i bregethu. Yn 1876 rhoes orau i bregethu oherwydd i'w iechyd dorri; ni allai annerch cynulleidfa. Ond gwellhaodd yn araf. Yna, ar argymhelliad [Roger Edwards](#), dechreuodd ysgrifennu rhai o'i bregethau a nifer o frasluniau o gymeriadau Methodistaidd i'r *Drysorfa*, o dan y teitl 'Offrymau Neilltuaeth.' Cytunodd, wedyn ar gais yr un g r i sgrifennu'r *Dreflan* i'w chyhoeddi bob yn bennod. Wedyn ysgrifennodd ei nofel, [Hunangofiant Rhys Lewis](#), bob yn bennod i'r *Drysorfa* rhwng 1882 a 1885. Wedyn cyhoeddwyd *Enoc Huws* a *Gwen Tomos* yn *Y Cymro*, papur wythnosol a gyhoeddwyd yn Lerpwl. Bu farw 22 Hydref 1895.

Cyn Daniel Owen, ni ellir dweud i ddim pwysig ymddangos ym myd y nofel Gymraeg, yn yr ystyr a roddwn i nofel heddiw. Disgrifio'r gymdeithas Gymreig a droai o gwmpas y capel a wnaeth ef yn *Rhys Lewis*, [Enoc Huws](#), a'r *Dreflan*, a'r gymdeithas wledig yn *Gwen Tomos*, a disgrifio'r aelodau unigol y tu fewn i'r gymdeithas honno. Ni ddangosodd dwf a datblygiad y cymeriadau, na gadael iddynt weithio allan eu tynged, eithr disgrifiodd hwynt yn fanwl fel yr oeddynt. Y manylwydd hwn sy'n rhoddi gwerth ar ei waith, a dyry lawer iawn o le i siarad a dadlau rhwng y cymeriadau - dylanwad y

seiat, yn ôl [Saunders Lewis](#). Ei wendid mwyaf, efallai, yw ceisio cael cwlwm i'w nofelau, a methu ei ddatod yn naturiol. Er bod llawer o'i gymeriadau yn bobl a adwaenai yn y cawd, eto ei greadigaethau ef ydynt fel y cawn hwynt ganddo. Hyd yma, ef yw ein nofelydd mwyaf o ran ansawdd ei waith, ac ef a sgrifennodd fwyaf hefyd.

Heblaw'r gweithiau a enwyd uchod ysgrifennodd Daniel Owen *Y Siswrn*, 1888. Cafwyd cyfieithiadau i'r Saesneg o *Rhys Lewis* yn 1889 ac o *Enoc Huws* yn 1894-6.

Awdur

Katherine Williams, (1891 - 1985)

Ffynonellau

T. R. Roberts, *Eminent Welshmen: a short biographical dictionary of Welshmen... from the earliest times to the present* (1908), a'r cyfeiriadau a geir yno ymchwil bersonol

Darllen Pellach

Robert Rhys, *Daniel Owen* (Gwasg Prifysgol Cymru 2000)

Isaac Foulkes 'Llyfrbryf,' *Daniel Owen, y nofelydd: bywgraffiad* (Liverpool 1903)

Erthygl Wicipedia: [Daniel Owen](#)

Dolenni Ychwanegol

Archifau LIGC: [Llawysgrifau Daniel Owen](#)

VIAF: [46279931](#)

Wikidata: [Q3395446](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

